



Adroddiad Arolygu

Karen James-Evans

Wrecsam

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

07/10/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr plant
Lleoedd cofrestredig	10
Iaith y gwasanaeth	Y ddau
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Cofnodwch â llaw Ymweliad ar ôl cofrestru.
A yw addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed yn cael ei darparu yn y gwasanaeth?	Cofnodwch â llaw Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

<u>Llesiant</u>	Nid oes angen graddio
<u>Gofal a datblygiad</u>	Nid oes angen graddio
<u>Yr Amgylchedd</u>	Nid oes angen graddio
<u>Arwain a rheoli</u>	Nid oes angen graddio

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn. Rydym felly wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad hwn. Maent yn mwynhau'r amser y maent yn ei dreulio yng nghartref y gwarchodwr plant ac yn datblygu cydberthnasau â hi ac aelodau'r teulu. Mae'r plant yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae ganddyn nhw gyfleoedd i chwarae a dysgu, dilyn eu diddordebau eu hunain, a datblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn ddysgwyr Cymraeg ac mae'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd hamddenol a meithringar i blant ac yn diwallu eu hanghenion yn briodol. Mae hi'n deall ei chyfrifoldebau mewn perthynas â chadw plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddi bolisiâu a gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau hyn. Mae hi'n garedig ac yn ofalgar, yn broffesiynol ac yn brofiadol wrth ofalu am blant.

Mae gan y cartref ddigon o le i blant archwilio a chwarae y tu mewn a'r tu allan. Cwblheir gwiriadau iechyd a diogelwch priodol ac mae'r cartref yn ddiogel. Mae angen iddi wella rhai ardaloedd yn yr awyr agored o hyd. Nid yw'r ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio gan blant. Mae angen cwblhau ychydig o waith adnewyddu, ond ni fydd hyn yn effeithio ar y sesiynau gwarchod plant. Mae'r plant yn elwa ar ddetholiad da o adnoddau chwarae i ddiwallu eu hanghenion.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn dri mis ar ôl i'r gwarchodwr plant gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r gwarchodwr plant eisoes yn gweithredu systemau cadw cofnodion priodol ac yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni. Mae hi'n defnyddio cyfleusterau AGC ar-lein a ffynonellau gwybodaeth eraill yn hyderus, ac mae'n awyddus i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hi'n awyddus i sefydlu systemau i fonitro ac adolygu ei lleoliad yn flynyddol.

Mae'r plant yn gwybod pan fyddant yn mynegi eu teimladau ac yn gwneud dewisiadau drostynt eu hunain, y gwrandewir arnynt. Mae'r rhai sy'n mynychu ar hyn o bryd yn ifanc ac yn defnyddio eu sgiliau iaith a'u hystumiau di-eiriau sy'n datblygu i gyfleu eu hanghenion a'u hoffterau. Gallant ddilyn eu diddordebau, ac maent yn rhydd i archwilio'r amgylchedd a dewis eu hoff deganau. Er enghraifft, roedd babi yn gallu cropian i silffoedd agored lefel isel yn yr ystafell chwarae, a chyrraedd teganau yn annibynnol, a thynnu gwrthrychau allan o fasged i weld beth y gallai ddod o hyd iddo.

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn gyffyrddus pan fyddant gyda'r gwarchodwr plant, ac mae ganddynt berthynas dda â hi ar ôl ychydig o fisoedd yn unig yn ei gofal. Mae'r plant chwerthin yn aml, ac yn ymateb yn dda pan ofynnir iddynt helpu i dacluso, neu baratoi ar gyfer amser byrbryd. Mae'r plant yn derbyn digon o sylw un i un, ac maent yn dysgu derbyn bod yn rhaid iddynt rannu sylw ac amser y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn chwarae gyda'i gilydd, gyda'r plentyn hŷn yn cofleidio'r un iau ac yn rhannu'r teganau yn dda. Yn aml, atgoffir babanod a phlant bach ifanc i ddefnyddio 'dwylo ysgafn' wrth chwarae gyda'i gilydd i sicrhau na fyddant yn cael unrhyw niwed.

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn cymryd rhan mewn chwarae sy'n briodol i'w hoedran, ac sy'n cynnal eu diddordeb am gyfnod priodol o amser. Mae ganddynt gyfleoedd i gadw'n iach yn yr awyr agored, gyda gweithgareddau'n dibynnu ar eu hoedran a'u gallu. Mae amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu yn cefnogi eu datblygiad. Roeddent yn chwarae gyda thoes yr oeddent wedi'i wneud eu hunain ac yn defnyddio amrywiaeth o deganau i siapio, torri a gwneud patrymau. Rhoddwyd ffyn iddynt gyda'r toes i wneud draenogod, a phan symudodd y plant i chwarae yn yr awyr agored, fe wnaethant chwarae gêm 'cylchoedd a chroesau' gyda'r gwarchodwr plant, gan ddefnyddio ffyn a cherrig mwy o faint. Fe wnaethant baentio, chwarae gyda cheir yn y tywod, a gwyllo sut roedd gwahanol ddarnau o ddeunydd yn symud yn y gwynt. Roedd y plant a oedd yn bresennol o dan ddwy oed. Roedd un yn adnabod ei liwiau yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac yn mwynhau edrych ar lyfrau dwyieithog.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth yn unol â'u cam datblygu. Gwelsom blant yn dewis teganau, roedd un yn gallu eistedd i fyny, a chropian tuag at flociau a cheisio eu pentyrru. Defnyddiodd un plentyn focs, a dod o hyd i'r eitemau yr oedd eu hangen i'w newid yn gar, gan wneud hyn ar ei ben ei hun. Maent yn dysgu bwyta byrbryd a defnyddio'r ystafell ymolchi yn annibynnol, fodd bynnag, mae plant yn cael eu goruchwyllo'n agos.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau o ran llesiant y plant. Mae'n deall ei bod yn ofynnol iddi adrodd ar unrhyw bryderon am blentyn i'r awdurdodau priodol, ac mae wedi mynychu'r hyfforddiant perthnasol. Mae ganddi weithdrefnau diogelu plant addas a systemau cadw cofnodion effeithiol, i gofnodi presenoldeb, damweiniau a digwyddiadau. Mae hi wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn cadw gwybodaeth am anghenion unigol plant, ac yn rhoi meddyginiaeth os oes angen. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau pe bai tân neu argyfwng yn digwydd, ac mae hi wedi ceisio cyngor gan y tîm diogelwch tân yn Wrecsam, ac wedi prynu larymau mwg ychwanegol ar gyfer rhannau newydd o'r cartref. Ysgrifennwyd polisïau a gweithdrefnau yn ystod pandemig COVID-19 ac fe'u hadolygir a'u diweddarau yn ôl yr angen, er enghraifft pan gyhoeddir canllawiau newydd. Bu newidiadau mewn perthynas ag ymolchi dwylo yn amlach, glanhau'r adeilad a'r teganau yn rheolaidd, gweithdrefnau newid cewynau yn ddiogel, a chyfyngu ar fynediad i'r adeilad. Clywsom hefyd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion hylendid trwy ofyn i blant orchuddio eu cegau wrth besychu, ac yna gofyn iddynt ymolchi eu dwylo.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau ac ymddygiad plant yn gadarnhaol ac yn effeithiol. Mae hi'n dweud wrthyn nhw yn aml am ddefnyddio 'dwylo ysgafn' wrth ddod i gysylltiad â phlant ifanc iawn, ac yn eu hatgoffa i beidio â thafllu tywod, er enghraifft. Mae ei rhyngweithiadau yn gadarnhaol, yn garedig ac yn ystyriol, felly mae'r plant yn teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn ei gofal. Gwelsom hi yn canmol babi wrth iddo bentyrru'r blociau, ac yn diolch i blentyn arall am helpu i frwsio'r tywod yr oedd wedi'i daflu ar y llawr. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n mynychu ac mae'n canolbwyntio ar dechnegau tynnu sylw a chanmol yn gadarnhaol. Mae hi hefyd yn esbonio sefyllfaoedd i blant er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall, ac yn dysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir. Maent hefyd yn dysgu pwysigrwydd ystyried teimladau eraill.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae a dysgu plant mewn ffordd gadarnhaol. Gwelsom hi yn darllen straeon i'r plant yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac yn annog babi i deimlo'r tywod, cyffwrdd â gwahanol ffabrigau a dal brwsh i beintio. Gofynnodd i'r plant wneud patrymau gyda'r paent, a chreu siapiau gwahanol, ac fe wnaethant hynny. Roedd y plant yn adnabod y lliwiau yn dda. Mae hi wrthi'n datblygu ffyrdd o gynllunio a gwerthuso gweithgareddau a chofnodi arsylwadau yn nyddiaduron dyddiol plant. Mae hi hefyd yn tynnu lluniau ar gyfer ei chofnodion, ac i'w hanfon ymlaen at rieni. Mae hi'n deall mor bwysig yw cynnig dewis eang o weithgareddau chwarae i blant, a siaradodd â ni am ddulliau amrywiol a'r opsiynau chwarae sydd ar gael, a phwysigrwydd adnoddau addas. Mae hi'n cynnig digon o gyfleoedd i'r plant yn yr awyr agored, ac yn gynharach y bore hwnnw, roedd hi wedi mwynhau mynd â'r plant am dro i gasglu dail.

Mae'r cartref yn ddiogel ac mae'r gwarchodwr plant yn rhoi unrhyw fesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod plant yn ddiogel. Er enghraifft, mae mesurau ymarferol ar waith i gyfyngu ar fynediad plant i rai rhannau o'r cartref, a chedwir allweddi wrth law rhag ofn y bydd angen gadael yr adeilad. Er na cheir mynediad i'r rhan fwyaf o'r ardd, mae gan y plant ardal gaeëdig, ddiogel, sy'n ddigonol ar gyfer ystod oedran y plant sy'n bresennol ar hyn o bryd. Yn y tŷ, mae gan blant fynediad i'w hystafell chwarae eu hunain ac ystafell fwyta/ystafell fyw cynllun agored sydd â mynediad uniongyrchol i'r tu allan. Mae'r gwarchodwr plant yn nodi risgiau diangen i blant yn yr ardaloedd hyn, a lle bo hynny'n bosibl, mae hi'n eu lleihau. Roedd hi wedi tynnu carthen a bleindiau ffenestri o'r ystafell chwarae pan wnaeth hi gofrestru. Mae gweithdrefn gyffredinol ar waith ar gyfer gadael os bydd tân , ac mae hi wedi'i hegluro a'i hymarfer gyda'r plant.

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cynllun agored cartrefol i blant chwarae ac ymlacio. Mae angen datblygu rhai ardaloedd ymhellach, yn enwedig yn yr awyr agored. Bydd ffenestri'n cael eu newid a slabiau yn cael eu gosod y tu allan nawr bod y cyfyngiadau wedi'u llacio. Mae'r gwaith adnewyddu i'r ystafell ymolchi, a'r gwaith ar yr estyniad wedi'i gwblhau. Mae llawer o le i blant archwilio a symud o gwmpas. Mae'r ystafelloedd wedi'u trefnu'n dda, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u haddurno i safon dda. Mae'r ystafell chwarae'n gyfeillgar i blant ac wedi'i haddurno'n ddeniadol. Mae digon o olau naturiol ac mae'r cartref wedi'i drefnu yn y fath fodd fel ei fod yn darparu ystod dda o gyfleoedd chwarae, sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae ystafell ymolchi i lawr y grisiau wrth ymyl yr ystafell chwarae, sydd â matiau newid, gris ar gyfer defnyddio'r toiled, a sedd toiled plentyn. Defnyddir rhannau o'r ardd. Defnyddiwyd ffens i amgáu ardal ddiogel. Nid yw rhai rhannau o'r ardd, na'r trampolîn, yn cael eu defnyddio gan y plant sy'n cael eu gwarchod.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu dewis da o adnoddau chwarae a dysgu i blant i ddiwallu eu hanghenion chwarae a dysgu. Mae adnoddau sy'n briodol i'w hoedran i ennyn diddordeb a chwilfrydedd plant y tu mewn a'r tu allan. Mae'r rhain yn cael eu storio'n briodol ar silffoedd agored lefel isel i ysgogi chwilfrydedd ac awydd plant i archwilio'r hyn y gallant ei weld. Gwelsom y gwarchodwr plant yn tynnu car tegan oddi ar fabi ifanc oherwydd ei olwynion bach, a allai ddod yn rhydd. Mae'r mwyafrif o deganau ar gael mewn unedau silffoedd agored sy'n golygu bod y plant yn gallu dewis teganau yn annibynnol heb gymorth y gwarchodwr plant. Mae digon o le i ymlacio mewn sawl rhan o'r cartref, gyda byrddau a chadeiriau addas ar gyfer amser bwyd. Mae'r cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n sefydlu systemau priodol i hwyluso trefniant ei lleoliad. Mae ganddi ystod o bolisïau a gweithdrefnau, ac mae hi'n rhannu'r rhain gyda'r rhieni. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu digon o wybodaeth, fel y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas i'w plentyn ai peidio. Mae rhai dogfennau'n cael eu storio'n electronig ac mae cofnodion eraill ar bapur. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion dyddiol i safon dda ac yn casglu gwybodaeth briodol am blant fel rhan o'i gweithdrefnau cofrestru a derbyn. Mae hi wedi ymateb i negeseuon uniongyrchol gan AGC, ac mae'n hyderus wrth ddefnyddio cyfleusterau ar-lein ar gyfer newidiadau, hysbysiadau, a chadw mewn cysylltiad.

Mae systemau datblygu ar waith i nodi meysydd i'w gwella ac i adolygu'r lleoliad. Cofrestrwyd y gwarchodwr plant yn ystod y pandemig a chwblhawyd yr arolygiad ôl-gofrestru yn fuan ar ôl cofrestru. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol bod ganddi 12 mis i adolygu ei gwasanaeth yn llawn, a bydd yn gwneud hyn trwy ofyn am adborth gan rieni a phlant. Ar hyn o bryd, mae hi'n canolbwyntio ar gwblhau gwaith adnewyddu mewn rhannau o'i chartref, nad ydynt yn effeithio ar ofal y plant.

Mae dulliau rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Er mwyn diogelu'r plant, mae tystysgrifau cyfredol gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gyfer yr holl bobl dros 16 oed sy'n byw yn yr adeilad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei hyfforddiant gorfodol yn gyfredol fel bod ganddi'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i gefnogi plant yn effeithiol.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn dda ac yn datblygu'n llwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am ei phlentyn bach ei hun a babanod eraill ar gyfer nifer fach o deuluoedd sy'n gymharol newydd i'w lleoliad. Mae hi'n cofnodi sut mae anghenion sylfaenol plant yn cael eu diwallu yn ystod y dydd yn eu dyddiaduron, sy'n cael eu hanfon adref. Mae ganddi gysylltiadau da ag ysgolion Cymraeg a Saesneg lleol, grwpiau plant bach a lleoliadau cylch chwarae.

Argymhellion i gwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Gwnaethom argymell bod y gwarchodwr plant yn cadw cofnod iddi hi ei hun o arsylwadau, sylwadau a manylion ynghylch sut mae anghenion sylfaenol pob plentyn yn cael eu diwallu. Mae dyddiadur dyddiol yn cael ei anfon adref i'r rhieni.

A2 Dylid gwirio dyddiad dod i ben yr eitemau yn y blychau cymorth cyntaf yn rheolaidd a chynnwys manylion y gwiriadau hyn yn yr asesiad risg priodol.

A3 Dylid chwilio am wybodaeth ar wefan AGC i helpu wrth gwblhau adolygiad ansawdd gofal blynyddol ac ysgrifennu adroddiad.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	AMHERTHNASOL

Sgoriau	Ystyr y graddio
Rhagorol	Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella llesiant plant.
Da	Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gweithredu ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Dyddiad cyhoeddi 17/12/2021